RHONDDA CYNON TAF

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU**

**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
Cofnodion o gyfarfod ar-lein o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ddydd Iau, 30 Gorffennaf 2020 am 3.00 pm.
**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu oedd yn bresennol:**

Y Cynghorydd M Adams (Cadeirydd)

Y Cynghorydd J. Bonetto
Y Cynghorydd J Harries
Y Cynghorydd J. Brencher
Y Cynghorydd L Walker
Y Cynghorydd M. Griffiths
Y Cynghorydd W Jones
Y Cynghorydd P. Jarman
Y Cynghorydd H. Boggis
Y Cynghorydd E Stephens
Y Cynghorydd G. Caple
Y Cynghorydd S. Morgans

**Aelodau o'r Cabinet yn bresennol**

Y Cynghorydd M. Webber – Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor
Y Cynghorydd Rhys Lewis - Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol

**Aelodau heb fod ar y Pwyllgor yn Bresennol**

Y Cynghorydd S Bradwick, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant
Y Cynghorydd R Yeo – Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles
Y Cynghorydd Shelley Rees-Owen, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc
Y Cynghorydd G Thomas, Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr P. Mee, Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

**60 Datganiad o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:

- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E. Stephens y budd personol canlynol yn ymwneud ag eitem 4 ac eitem 3 ar yr Agenda, yn y drefn honno: "Rwy'n gweithio i'r Adran Gwaith a Phensiynau ac weithiau byddaf yn gweithio ochr yn ochr ag aelodau o'r Garfan Cymunedau am

Waith yn rhan o fy swydd”.

## 61 Ymddiheuriadau

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A. Cox a S. Evans.

## 62 Cofnodion

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2020 yn rhai cywir.

## 63 Y Diweddaraf ynglŷn â COVID-19 yn Rhondda Cynon Taf

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, gyfle i Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu graffu ar yr wybodaeth yn yr adroddiad mewn perthynas ag ymateb y Cyngor i bandemig Covid-19, ei gynllun adfer a'r wybodaeth yn yr Adroddiad i'r Cabinet ar 28 Gorffennaf 2020, yn ogystal â'u hadolygu a'u herio. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd M. Webber a'r Aelod o’r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol, y Cynghorydd R. Lewis, yn bresennol ac y bydden nhw'n darparu diweddariad lle bo hynny'n briodol.

Parhaodd y trafodaethau a dywedodd y Cynghorydd Webber wrth yr Aelodau fod y Cyngor wedi agor y gwasanaeth ailgylchu yn y gymuned yn raddol, a bod ysgolion hefyd wedi ailagor yn ddiweddar fel bod modd i ddisgyblion baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi. Nodwyd bod adborth cadarnhaol wedi dod i law a bod hyn wedi'i drafod gan y Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc ar 22 Mehefin 2020. Er gwaethaf y cyfyngiadau hynny a achoswyd gan Covid-19, pwysleiswyd bod y nifer helaeth o wasanaethau'r Cyngor wedi dal ati i weithio, er bod hynny mewn ffordd wahanol. Y gobaith yw y bydd y Cyngor yn parhau i adeiladu ar y ffordd newydd yma o weithio, ac y bydd modd iddo ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol yn y dyfodol. Clywodd yr Aelodau y bydd y system Profi, Tracio ac Olrhain yn rhan bwysig iawn o ddull gweithredu'r Cyngor o ran ymateb i wasanaethau yn y dyfodol, a bydd y gwasanaeth yn rhan allweddol o strategaeth adfer y Cyngor wrth edrych i'r dyfodol. Diolchodd y Cynghorydd Webber i holl staff y Cyngor am eu diwydrwydd, eu gwaith caled a'u hymroddiad dros y pedwar mis diwethaf a diolchodd i Uwch Arweinwyr y Cyngor am ddangos y fath ymrwymiad ac ymroddiad.

Yn dilyn diweddariad gan y Dirprwy Arweinydd, derbyniodd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ddiweddariad pellach gan y Cynghorydd R. Lewis, Aelod o’r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol. Nodwyd bod staff y Cyngor wedi bod yn gweithio'n galed i ailagor llyfrgelloedd yn raddol, ac y bydd llyfrgelloedd symudol yn ailagor o 20 Awst. O ran rheoli plâu, mae'r staff wedi cael y cyfarpar diogelu personol angenrheidiol a bydd y gwasanaethau'n ailgychwyn o 29 Gorffennaf, gyda gwasanaethau'r Warden Anifeiliaid yn ailgychwyn o 29 Mehefin. O ran Gwasanaethau Cofrestrydd, bydd priodasau a seremonïau sifil yn ailgychwyn o 30 Gorffennaf, ailgychwynnodd cofrestriadau genedigaeth wyneb yn wyneb yn o 13 Gorffennaf, a bydd nifer y galarwyr mewn gwasanaethau angladd yn cynyddu i ddeg ar hugain o 3 Awst.

Parhaodd y trafodaethau ac atgoffodd y Cynghorydd R. Lewis yr Aelodau y bydd

y Cyngor yn cynnig rhagor o gymorth o ran swyddi wrth i'r economi ddechrau gwella yn dilyn y pandemig, ac y bydd hyn yn fater allweddol i'r Cyngor wrth edrych i'r dyfodol. O ran archwiliadau diogelwch bwyd dan gyfarwyddyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, rydyn ni wedi ailddechrau archwilio safleoedd bwyd, a bydd archwiliadau trwyddedau tacsi yn ailgychwyn o 13 Gorffennaf. Diolchodd y Cynghorydd Lewis i Swyddogion a phartneriaid allanol am eu hymroddiad a'u gwaith caled dros y pedwar mis diwethaf, a nododd ei edmygedd a'i ddiolchgarwch am yr aberthau y maen nhw i gyd wedi'u gwneud yn ystod y pandemig.

Adleisiodd y Dirprwy Brif Weithredwr y sylwadau hyn, gan hefyd estyn ei diolch i'r holl Gynghorwyr ac Aelodau'r Cabinet. Pwysleisiwyd mai nod y Cyngor yw symud ymlaen mewn ffordd bwyllog a'r gobaith yw y bydd modd i'r Cyngor ailgychwyn yr holl wasanaethau dros y misoedd nesaf. Hefyd estynnodd y Cynghorydd Webber ei diolch i'r gwasanaeth gwirfoddol ac i'r gofalwyr yn y gymuned.

Parhaodd y trafodaethau a gofynnodd y Cadeirydd am eglurder o ran hyfywedd theatrau RhCT yn y dyfodol, yn enwedig yng ngoleuni cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol. Dwedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned wrth y Pwyllgor fod y gwasanaeth yn gweithio'n galed iawn i wneud y paratoadau angenrheidiol fel bod modd i RhCT agor ei theatrau yn y dyfodol. Pwysleisiwyd bod y gwasanaeth yn gweithio i ddarparu gwasanaeth celfyddydau a diwylliant i'w drigolion gan ddefnyddio llwyfannau ar-lein yn y cyfamser.

Cododd y Cynghorydd Stephens ymholiad arall mewn perthynas â theithio llesol. Nodwyd bod ymddygiad pobl wedi newid ers Covid-19, a bod pobl yn cerdded ac yn beicio yn fwy aml erbyn hyn. Holodd y Cynghorydd Stephens a fyddai modd i hyn newid gwaith y Cyngor mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd. Cyfeiriodd y Cynghorydd Lewis yr Aelodau at gynllun 'adfer gwyrdd' Llywodraeth Cymru a'i ffocws ar yr amgylchedd a ffyrdd newydd o weithio. Sicrhaodd y Cynghorydd Lewis yr Aelodau y bydd y Cyngor yn defnyddio'r cynllun adfer i edrych ar fesurau gwyrdd a sut i adeiladu ar y ffyrdd newydd yma o weithio wrth edrych i'r dyfodol.

Parhaodd y trafodaethau a diolchodd y Cynghorydd W. Jones i holl staff y Cyngor am eu holl waith caled yn ystod y pandemig. O ran rheoli plâu, nododd y Cynghorydd Jones fod ei ward wedi gweld cynnydd o ran cnofilod y tu mewn a'r tu allan, a gofynnodd a fyddai hyn yn flaenoriaeth i'r Cyngor mewn perthynas â'i gynllun adfer. Dywedodd y Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned wrth yr Aelodau fod y gwasanaeth bellach wedi ailddechrau'n llawn. Anogodd yr Aelodau hefyd i roi gwybod am unrhyw broblemau yn eu wardiau yn brydlon, a rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau fod gan y Cyngor ystod o bwerau gorfodi i ddelio â'r materion hyn.

Gofynnodd y Cynghorydd Walker am eglurhad ynghylch a fyddai'r ganolfan 'learning curve' ar waelod Ystad Ddiwydiannol Trefforest yn ailagor yn fuan, a holodd am gynlluniau'r Cyngor ar gyfer dyfodol yr adeilad. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr wrth yr Aelodau nad oes penderfyniad wedi'i wneud eto, fodd bynnag, pwysleisiodd fod hyn yn cael ei adolygu'n barhaus ac y bydd angen rheoli cyfyngiadau diogelu yn ofalus, yn enwedig o ystyried pa mor agored i niwed yw'r grŵp gwasanaeth.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M. Griffiths y Pwyllgor at dudalen 31 yr adroddiad, a

holodd a oes gan y Cyngor yr adnoddau i fodloni'r cynnydd posibl yn y galw am ofal yn y cartref o ganlyniad i Covid-19. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr wrth yr Aelodau fod y Cyngor yn dechrau ailgyflwyno'r gwasanaeth 'Cadw'n Iach Gartref' a rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau fod gan y Cyngor hanes da o weithio gyda phartneriaid allanol yn y gorffennol, a bod y Cyngor yn hyderus y bydd hyn yn dal i fod yn wir wrth edrych i'r dyfodol.

Parhaodd y trafodaethau a chyfeiriodd y Cynghorydd W. Jones y Pwyllgor at goeden a ddisgynnodd yn ei ward yn ystod Storm Dennis eleni, gan holi a fyddai'r Cyngor yn cynnal gwiriadau diogelwch ym mhob parc ledled y Fwrdeistref Sirol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen wrth yr Aelodau fod y trefniadau i adolygu cyflwr coed yn broses barhaus, ac y bydd y Cyngor yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw goed peryglus sydd wedi'u nodi.
Cyfeiriodd y Cynghorydd Brencher yr Aelodau at y cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig a gofynnodd a oes gyda ni ddigon o adnoddau i ddelio â hyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned wrth y Pwyllgor nad yw'r cynnydd yn y galw i'w weld ym maes cam-drin yn y cartref hyd yn hyn, yn ôl trafodaeth gyda darparwyr gwasanaethau, serch hynny, rhagwelir y bydd modd ei weld unwaith i'r cyfyngiadau gael eu llacio. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael ar lefel ranbarthol i gefnogi'r gwasanaethau hyn a chynyddu'u gallu i fynd i'r afael â'r cynnydd rydyn ni'n disgwyl ei weld o ran y galw. O ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Cyngor wedi parhau i ddarparu rhwydwaith cymorth yn y maes yma, ac wedi parhau i weithio'n agos gyda'r heddlu. Cafodd yr Aelodau sicrwydd bod unrhyw broblemau o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled y Fwrdeistref Sirol yn ennyn ymateb da.

O ran cynllun adfer y Cyngor, gofynnodd y Cynghorydd Caple am eglurhad mewn perthynas â chynllun y Cyngor i gynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol trefi, ac i gefnogi'r gwaith o adfywio canol trefi, yn enwedig wrth i staff ddychwelyd i'r gwaith mewn swyddfeydd yng nghanol y trefi. Dywedodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol wrth y Pwyllgor fod arolwg staff wedi'i gyflwyno a bod mwy na 80% o'r staff a ymatebodd wedi dweud eu bod nhw'n hoffi'r cysyniad o barhau i weithio gartref. Serch hynny, roedden nhw hefyd yn dweud yr hoffen nhw gael cyfle i ddod i'r swyddfa yn rhan amser er mwyn diogelu'u lles. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol y bydden nhw'n awyddus i wneud hyn ar sail strwythuredig, yn enwedig yng ngoleuni cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad mewn perthynas â chynllun yr Awdurdod i ddelio ag ail don bosibl o'r feirws. Dywedodd y Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned wrth yr Aelodau fod Prif Swyddog Meddygol Cymru wedi cynghori Awdurdodau Lleol i ddechrau paratoi ar gyfer ail don yn ddiweddar, a dywedodd y bydd partneriaid yn cydweithio i nodi pa gamau fydd angen eu cymryd os bydd nifer yr heintiau'n dechrau cynyddu. Cafodd yr Aelodau sicrwydd bod y Cyngor mewn sefyllfa gref i ddelio ag ail don bosibl, yn enwedig yn dilyn cyflwyno'r system Profi, Olrhain, Diogelu newydd a derbyn gwybodaeth fwy trylwyr o ran goruchwylio. Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith hefyd pe bai achosion mewn lleoliadau addysgol a chartrefi gofal, ac mae mewn sefyllfa well i ddelio ag unrhyw ddigwyddiadau pe bydden nhw'n codi. Mae'r Cyngor hefyd yn gwneud gwaith trwy'r fforymau cydnerthedd lleol mewn perthynas â chynllunio sefyllfaoedd, a'r hyn y byddai angen iddo ei wneud pe bai angen rhoi cyfnod clo lleol ar waith.

O ran addysg, holodd y Cadeirydd pa drefniadau sydd ar waith i atal ymlediad yr haint. Dywedodd y Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned fod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi canllawiau penodol ynglŷn â hyn yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac, os bydd dau achos neu ragor wedi'u cadarnhau o fewn cyfnod o bythefnos, byddai hynny'n arwain at ymchwiliadau a chamau gweithredu pellach. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod nifer o fesurau y mae modd eu rhoi ar waith, megis rhoi carfan reoli digwyddiadau ar waith neu gymryd camau drefnu bod y grŵp penodol hwnnw o blant yn hunan-ynysu. Clywodd yr Aelodau y byddai pob achos yn cael ei drin yn unigol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau cynhwysfawr sy'n darparu cyngor ar beth yn union i'w wneud o dan yr amgylchiadau yma, ac mae'r Cyfarwyddwr Addysg wedi rhannu'r canllaw yma gyda'r holl ysgolion ledled y Fwrdeistref Sirol. Y brif neges yw cynnal safonau hylendid a chadw pellter cymdeithasol, a sicrhau nad yw unrhyw un sy'n cyflwyno symptomau Covid-19 yn mynd i'r ysgol. Cytunodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol â'r sylwadau hyn a phwysleisiodd pa mor bwysig yw hi fod staff y Cyngor yn parhau i weithio gartref. Dywedodd y caiff diweddariadau pellach mewn perthynas ag addysg eu cyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf.

Holodd y Cynghorydd Stephens am faint yr ardaloedd y mae modd eu rhoi mewn cyfnod clo lleol pe byddai'r angen yn codi, er enghraifft a fyddai hyn yn berthnasol ar gyfer RhCT gyfan, ward benodol neu hyd yn oed stryd unigol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned y byddai'n ymwneud â'r amgylchiadau penodol, a bod y digwyddiadau yng Nghymru hyd yma wedi ymwneud yn bennaf ag adeiladau unigol, lle mae'r gweithlu yn gyffredinol wedi wynebu risg uwch o ddal yr haint yn y lleoliad hwnnw. Bydd hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol a deall beth oedd achos yr haint yn y lle cyntaf. Clywodd yr Aelodau y bydd y system Profi, Olrhain a Diogelu hefyd yn dechrau olrhain cyswllt 'am yn ôl' i geisio nodi o ble mae'r haint wedi dod a lle mae'r unigolyn wedi'i ddal. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth fwy cynhwysfawr i'r Cyngor mewn perthynas ag unrhyw gyfnodau clo lleol, fodd bynnag, pwysleisiodd y Cyfarwyddwr y byddai unrhyw gyfnod clo'n cael ei asesu'n unigol.

Holodd y Cadeirydd sut y gallai'r Cyngor orfodi cyfnod clo lleol yn y Rhondda pan mae pob cymuned ynghlwm â'i gilydd. Cytunodd y Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned fod modd i hyn fod yn anodd iawn yn y cymunedau sydd gennym yn y cymoedd, ac y byddai'n rhywbeth y byddai'n rhaid ei ystyried fel dewis olaf, gan roi camau ar waith sy'n berthnasol ar gyfer yr amgylchiadau unigol.

Cafwyd trafodaethau a phwysleisiodd y Cynghorydd W. Jones, pe bai staff yn mynd yn ôl i weithio ar sail rota, y dylai Cynghorwyr hefyd arwain trwy esiampl a mynychu cyfarfodydd ar sail canran. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu y bydd y Cyngor mewn sefyllfa i edrych ar integreiddio'r dechnoleg gweddarlledu â'r dechnoleg cyfarfod rhithwir unwaith i'r gwaith yn y siambr ddod i ben, ac y bydd modd ystyried cyflwyno dull hybrid.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Cydnabod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad; ac,
2. Gofyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, barhau i rannu unrhyw wybodaeth berthnasol a phellach gyda'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, gan gynnwys unrhyw wybodaeth

ariannol berthnasol a phriodol.

**Noder: Oherwydd problemau rhyngrwyd, doedd dim modd i Arweinydd yr Wrthblaid (y Cynghorydd P. Jarman) orffen ei chyfraniad i'r drafodaeth**

**64 Adroddiad ar Gyflawniad y Cyngor – 31 Mawrth 2020 (diwedd blwyddyn)**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, Adroddiad ar Gyflawniad y Cyngor, Chwarter 4, hyd at 31 Mawrth 2020, i'r Aelodau. Pwysleisiwyd bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystyried y mater yma'n rhan o'r trefniadau dros dro sydd ar waith er mwyn sefydlu cyfarfodydd pwyllgorau ar-lein a bwrw ymlaen â nhw.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Cyllid a Gwella'r adroddiad yn fanylach a nodwyd bod yr adroddiad diwedd blwyddyn wedi'i osod yng nghyd-destun Storm Dennis a dechrau pandemig Covid-19, sydd yn anochel wedi cael effeithiau niweidiol ar sefyllfa ariannol y Cyngor a'i gyflawniad yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20. Ychwanegodd y cyfeiriwyd atyn y golblygiadau yma drwy gydol yr adroddiad ac yn yr atodiadau manwl, lle bo hynny'n briodol.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â: -

- Cyflawniad o ran refeniw a chyllideb cyfalaf;
- Dangosyddion darbodus Rheoli'r Trysorlys;
- Gwybodaeth Iechyd Sefydliadol gan gynnwys trosiant staff, salwch a risgiau strategol y Cyngor;
- Diweddariadau am gynllun gweithredu blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol;
- Mesurau a thargedau cenedlaethol eraill.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Cyllid a Gwella drosolwg i'r Pwyllgor o'r wybodaeth allweddol sy'n rhan o'r adroddiad mewn perthynas â data ariannol a chynnydd yn erbyn blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor. Hefyd, rhoddwyd gwybodaeth i'r Aelodau ynghylch eithriadau a amlygwyd ym mhob un o'r adrannau manwl sy'n ymwneud â mateion ariannol a chyflawniad ac i gloi, nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod 46 o blith y 71 o ddangosyddion cyflawniad y Cynllun Corfforaethol yr adroddwyd arnynt gyda tharged ar ddiwedd y flwyddyn, yn bwrw'r targed. Dywedodd fod 9 o fewn 5% o'r targed ac nid oedd 16 yn bwrw'r targed o fwy na 5%.

Mewn ymateb, cododd yr Aelodau nifer o gwestiynau gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Brencher y Pwyllgor ar gostau ymateb i Storm Dennis (Tabl 1 o fewn y Crynodeb Gweithredol), a gofynnodd am ragor o wybodaeth am lefel y cyllid a gafwyd gan Lywodraeth Cymru a'r effaith ar y Cyngor yn y tymor canolig a'r tymor hir. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Cyllid a wella, wybod i'r Pwyllgor bod y Cyngor wedi rhoi camau prydlon ar waith yn dilyn Storm Dennis, fel bod modd cofrestru'r digwyddiad tywydd sylweddol yma o dan Gynllun Cymorth Ariannol Brys Llywodraeth Cymru. Hyd yma, mae'r Cygor wedi derbyn £1.697 miliwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyfrannu at y costau tymor byr. Aeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ymlaen i ddweud wrth y Pwyllgor fod gwaith yn mynd rhagddo i asesu'r difrod i isadeiledd y Cyngor o

ganlyniad i Storm Dennis, a bod y Cyngor yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan er mwyn manteisio ar bob cyfle i ddiogelu'r cyllid ychwanegol sydd ei angen. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y drafodaeth yma'n dal i fynd rhagddi ar hyn o bryd.
Gwnaeth y Cynghorydd Walker ymholiad pellach ynghylch y gorwariant o ran y gyllideb refeniw ragweledig ym maes 'Diogelu a Chymorth (gan gynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal)' ar dudalen 101 yr adroddiad. Nododd yr Aelod fod ymyrraeth gynnar yn flaenoriaeth allweddol a gofynnodd am ddadansoddiad o wybodaeth fesul ward o ran Plant sy'n Derbyn Gofal fel bod modd adolygu'r maes yn fwy manwl. Cytunodd y Cadeirydd â'r cais yma a nododd fod angen cefnogaeth ar oedolion agored i niwed yn ogystal â phlant sy'n derbyn gofal. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles, y Cynghorydd R. Yeo, fod y mater hwn wedi'i drafod mewn cyfarfod diweddar o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol a bod argymhelliad wedi'i basio i gyfeirio'r mater yma at y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc i'w adolygu. Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gyda'r argymhelliad yma.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Caple y Pwyllgor at dudalen 92 o'r adroddiad ac at fuddsoddiad y Cyngor mewn cyfleusterau gofal ychwanegol, gan holi a yw Covid-19 wedi achosi oedi o ran y prosiectau hyn. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr wrth yr Aelodau fod cynnydd da wedi'i wneud yn ystod chwarter 4, mewn partneriaeth â Linc Cymru, er mwyn galluogi cyfleuster gofal ychwanegol Maesfynnon i agor ym mis Mai 2020. Aeth y Dirprwy Brif Weithredwr ymlaen i roi gwybod i'r Pwyllgor bod cynnydd yn dal i fynd rhagddo er mwyn darparu'r cyfleuster gofal ychwanegol ym Mhontypridd, gan gydnabod y bydd Covid-19 yn cael rhywfaint o effaith ar y cynnydd. Nododd fod trefniadau rheoli rposiect trylwyr ar waith er mwyn goruchwylio'r cynllun. Ychwanegodd y Dirprwy Brif Weithredwr, o ran datblygu cyfleuster gofal ychwanegol yn y Porth, fod y gwaith o drafod opsiynau yn parhau.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** nodi cyflawniad ariannol a gweithredol y Cyngor ar 31 Mawrth 2020 (Chwarter 4).

.

**65 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben**

Crynhodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r pwyntiau trafod allweddol

ac estynnodd ei ddiolch i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu presenoldeb ac am gyfarfod adeiladol a heriol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.23 pm**

**Y Cynghorydd M. Adams**
**Cadeirydd.**